O ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth gofynnwch i'ch swyddog Cosb Gymunedol lleol.

ECP (Welsh) 08/03 OFF

Cosb Gymunedol Ddatblygedig

Gwybodaeth i chi

GWASANAETH PRAWF CENEDLAETHOL

Cosb gyda diben

Beth yw Cosb Gymunedol Ddatblygedig (ECP)?

Mae Cosb Gymunedol Ddatblygedig yn gynllun i'ch helpu i beidio â throseddu heb fynd i'r carchar.

Fel cosb byddwch yn gwneud gwaith di-dâl i'r gymuned.

Bydd y gwaith yn helpu pobl eraill. Bydd hefyd yn helpu i wella:

- Sgiliau gwaith
- Sgiliau datrys problemau
- Meddwl am y ffordd rydych yn ymddwyn
- Y gallu i beidio â mynd i drafferth

Cynhelir sesiynau gwaith yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau. Wrth gynllunio eich sesiynau gwaith, byddwn yn ystyried ymrwymiadau gwaith a theuluol.

Beth mae'n ei olygu i mi?

Ar ôl eich dedfryd byddwch yn gweld eich swyddog Cosb Gymunedol a fydd yn rhoi gwybodaeth i chi am y cynllun Cosb Gymunedol Ddatblygedig ac yn rhoi gwaith i chi sy'n addas i'ch sgiliau ac sy'n diwallu eich anghenion.

Bydd angen i chi ddechrau eich gwaith o fewn deg diwrnod a chaiff eich cynnydd ei adolygu'n rheolaidd.

Beth bydd yn rhaid i mi ei wneud?

Bydd yn rhaid i chi:

- Gadw pob apwyntiad a chyrraedd yn brydlon
- Gweithio pob awr a orchmynnwyd a chydymffurfio â'ch cyfarwyddiadau
- Rhoi gwybod i ni os byddwch yn newid eich cyfeiriad
- Rhoi gwybod i ni ar unwaith os na allwch fynychu

Os byddwch yn methu dwy sesiwn neu fwy heb reswm dilys, byddwch yn dychwelyd i'r llys a gallech gael eich anfon i'r carchar.

Ni ddylech:

- Fethu apwyntiad na bod yn hwyr
- Cyrraedd o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol
- Ymddwyn mewn ffordd hiliol, rhywiaethol neu ymosodol

Mae gennych yr hawl i gael eich trin yn deg heb wahaniaethu yn eich erbyn ac mae'n rhaid i chi drin eraill yn y ffordd hon. Os bydd gennych gŵyn siaradwch â'ch swyddog Cosb Gymunedol.